Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Communities, Equality and Local Government Committee
CELG(4)-26-15 Papur 2 / Paper 2

**Ken Skates AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref
Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

post@comisiynyddygymraeg.org

15 Hydref 2015

Annwyl Meri

**Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol**

Rwyf yn ddiolchgar iawn ichi am eich cyfraniad i'r cais am dystiolaeth diweddar gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, sef y pwyllgor sy'n gyfrifol am graffu ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru). Nodaf eich bod, ar 1 Hydref, wedi ymateb i gais gan y Pwyllgor yn gofyn yn benodol am y gofynion ieithyddol o ran y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol. Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor bellach wedi cyhoeddi ei adroddiad a nodaf mai un o'r argymhellion yw: 'egluro a yw'r gofynion ar awdurdodau lleol i gydymffurfio â'r safonau ym Mesur y Gymraeg 2011 yn gymwys i'r cofnodion amgylchedd hanesyddol'. Deallaf fod fy swyddogion wedi bod yn ceisio trefnu cyfarfod gyda'ch swyddfa dros y misoedd diwethaf a bod cyfarfod bellach wedi'i drefnu ar gyfer 29 Hydref. Nid wyf am ragdybio'r hyn a ddaw o'r cyfarfod hwnnw, ond efallai y bydd o ddefnydd i mi roi ambell sylw ynghylch natur Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol a diben y darpariaethau.

Mae'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yn ffynhonnell hollbwysig o wybodaeth hanesyddol ac archifol sy'n cefnogi'r gwaith o reoli'r amgylchedd hanesyddol, yn enwedig drwy'r broses gynllunio. Caiff y wybodaeth ei defnyddio hefyd i gynyddu ymwybyddiaeth o dreftadaeth gyfoethog Cymru ymhlith aelodau'r cyhoedd, a'u defnydd a'u mwynhad ohoni. Rhoddir mwy o wybodaeth am beth yn union yw'r Cofnodion, a diben a bwriad y darpariaethau, yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Yr amcangyfrif ar hyn o bryd yw bod dros 150,000 o gofnodion amgylchedd hanesyddol wedi'u cynhyrchu dros y 40 mlynedd ddiwethaf. Mae'r wybodaeth hon yn bodoli ar sawl ffurf: gwybodaeth ddigidol, mapiau ac archifau, yn ogystal â thestun lleoliadol, testun disgrifiadol a chyfeiriadau at ffynonellau eraill o wybodaeth. I bob pwrpas, cofnodion ac archifau hanesyddol yw'r rhain.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Ken.Skates@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Ymddiriedolaethau Archaeolegol wedi datblygu mynediad ar-lein i elfennau allweddol o ddata'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol drwy wefan *Archwilio*. Mae llawer o'r wybodaeth sydd wedi'i chasglu'n hanesyddol wedi'i chyflwyno drwy'r wefan hon. Mae'r wybodaeth sydd ar-lein yn cynnwys gwybodaeth chwiliadwy sy'n eithaf cryno – ychydig eiriau – ond mae'r cofnodion hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddisgrifiadol sydd wedi'i chasglu dros y blynyddoedd, a gall y rheiny fod yn eithaf hir.

Ledled y Deyrnas Unedig, mae galw wedi bod am sicrhau dyfodol mwy diogel i gofnodion amgylchedd hanesyddol, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd gyfredol o bwysau ariannol mawr ar awdurdodau lleol. Mae nifer o sefydliadau (Cyngor Archaeoleg Prydain a Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr, er enghraifft) wedi canmol Cymru am arwain y ffordd tuag at ddarparu statws statudol ar gyfer y cofnodion. Credaf y bydd y fenter hon, ynghyd â darpariaethau eraill yn y Bil, yn rhoi Cymru ar flaen y gad o ran diogelu a rheoli'r amgylchedd hanesyddol.

Rwyf hefyd yn ymwybodol o bwysigrwydd cydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 oni bai bod eithriad penodol wedi'i gytuno â'ch swyddfa. Gyda hyn mewn cof, rwyf yn ymwybodol y gallai'r safonau y tynnwch sylw atynt yn eich llythyr mewn perthynas ag arddangos gwybodaeth yn gyhoeddus (Safonau 38-39) a gwefannau a gwasanaethau ar-lein (Safonau 52-57) fod yn gymwys, o leiaf yn rhannol, i Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol.

Cydnabyddwn bwysigrwydd darparu gwasanaeth Cofnodion Amgylcheddol Hanesyddol dwyieithog ac rwyf wedi gofyn i fy swyddogion drafod gyda'ch swyddfa ynghylch sut orau i gyflawni hyn. Er enghraifft, un elfen bwysig o'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yw darparu cymorth a chyngor i gael a deall y wybodaeth a gynhwysir yn y cofnodion. Pe bai'r Awdurdodau Lleol yn dewis cyflawni eu cyfrifoldebau drwy'r Ymddiriedolaethau Archaeolegol, rwyf wedi cael gwybod y byddai'r Ymddiriedolaethau'n hyderus y gallent oll gyflawni'r gwasanaeth hwn yn ddwyieithog. Fodd bynnag, rydym hefyd yn awyddus i drafod beth sy'n gymesur a beth ellir ei gyflawni o ran yr wybodaeth hanesyddol ac archifol o fewn y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol y darperir mynediad iddi drwy *Archwilio*, a hynny o ran y cofnodion a'r wybodaeth sy'n bodoli eisoes a'r rhai a fydd yn cael eu creu yn y dyfodol.

Nodaf fod eich llythyr at y Pwyllgor hefyd yn cyfeirio at gynnwys gwybodaeth am enwau lleoedd yng Nghymru yn y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol – gan ddefnyddio, ble y bo'n berthnasol, y ffurfiau Cymraeg a Saesneg. Gwnaed argymhelliad tebyg gan y Pwyllgor, ac rwyf wedi cyfarwyddo fy swyddogion i ystyried sut y gellid cynnwys gofyniad o'r fath fel gwelliant i'r adran berthnasol o'r Bil a sut y gellid cael mynediad at wybodaeth am enwau lleoedd hanesyddol drwy'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Christine Chapman, AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

Cofion
Ken

**Ken Skates AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

## Atodiad

## Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol

Cefndir

1. Mae'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yn storio gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol ac asedau hanesyddol penodol mewn ardal benodol, yn trefnu'r wybodaeth honno'n systematig, ac yn darparu mynediad ati. Maent yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth i bobl sy'n gwneud penderfyniadau am reolaeth gynaliadwy o'r amgylchedd hanesyddol. Mae'r wybodaeth sydd ynddynt yn fan cychwyn pwysig ar gyfer prosesau rheoli, cadwraeth, gwaith maes ac ymchwil, ac ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ac allgymorth mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol. Y cofnodion yw'r sail ar gyfer rhoi cyngor ar faterion rheoli treftadaeth ac archaeoleg i awdurdodau cynllunio lleol. Heb yr wybodaeth hon, ni fyddai'r cyngor hanfodol sy'n sail, er enghraifft, i'r gwaith o asesu effaith cynigion datblygu ar yr amgylchedd hanesyddol yn gallu bod yn hollol ddibynadwy.

Sefyllfa gyfredol

2. Ar hyn o bryd, pedwar cofnod amgylchedd hanesyddol sydd yng Nghymru. Maent yn deillio o'r Cofnodion Safleoedd a Henebion a sefydlwyd gan y pedair ymddiriedolaeth archaeolegol yn yr 1970au. Yr hyn a ysgogodd creu'r rhain, yn bennaf, oedd diffyg gwybodaeth archaeolegol ac, yn sgil hyn, yr olion archaeolegol oedd yn cael eu colli ar ôl datblygiad. Rhyngddynt, mae'r pedair set o gofnodion amgylcheddol hanesyddol yn gofnod cynhwysfawr ar gyfer Cymru gyfan.

3. Fe'u defnyddir i:

- gynorthwyo polisïau strategol a lleol ar gyfer cadwraeth mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol;
- darparu gwybodaeth am asedau hanesyddol a allai gael eu heffeithio gan geisiadau cynllunio a chynigion datblygu eraill;
- darparu sail o wybodaeth ar gyfer adfywio ar sail treftadaeth;
- cyfrannu at weithgareddau addysgol a dysgu gydol oes;
- cynorthwyo ymchwil; a
- cynorthwyo'r cyhoedd i gymryd rhan a mwynhau'r amgylchedd hanesyddol, a hyrwyddo hyn.

4. Mae'r cofnodion yn ategu'r archifau parhaol a ddelir gan awdurdodau lleol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru drwy dynnu gwybodaeth ynghyd am yr amgylchedd hanesyddol a chyfeirio pobl at adnoddau manwl a chynhwysfawr eraill.

5. Dros y pedwar degawd diwethaf, mae'r cofnodion amgylchedd hanesyddol wedi tyfu a thyfu. Bellach, maent yn cynnwys dros 150,000 o gofnodion hanesyddol ac archifol ac maent yn parhau i dyfu wrth i wybodaeth ar safleoedd ac archwiliadau newydd gael ei hychwanegu ac wrth i'r cofnodion sydd yno eisoes gael eu hehangu a'u gwella. Mae pob cofnod yn cynnwys testun lleoliadol a disgrifiadol a chyfeiriadau at ffynonellau eraill o wybodaeth. Gallant y cofnodion gynnwys gwybodaeth ar ffurf dogfennau papur, ffotograffau, mapiau, gwybodaeth Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol, yn ogystal â data digidol.

6. Ar hyn o bryd, mae'r pedair set o gofnodion amgylchedd hanesyddol yn berchen i ymddiriedolaethau cofnodion amgylchedd hanesyddol. Mae'r ymddiriedolaethau hyn yn rhai elusennol ac nid oes iddynt statws statudol. Mae Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru, sy'n elusennau cofrestredig, yn cynnal a chadw'r cofnodion ar ran yr ymddiriedolaethau elusennol cysylltiedig ac yn darparu mynediad cyhoeddus atynt. Maent yn darparu cyngor rheoli datblygu ar effaith cynigion cynllunio ar yr amgylchedd hanesyddol i awdurdodau cynllunio lleol yn eu hardaloedd. Mae'r cyngor hwn yn seiliedig, i raddau helaeth, ar yr wybodaeth a ddelir yn y cofnodion. Gall aelodau'r cyhoedd gael mynediad at y cofnodion yn uniongyrchol, yn swyddfeydd Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru, neu drwy system fynediad ar-lein (sef *Archwilio*) a'r ap ffôn cysylltiedig.

7. Daw'r cyllid pennaf ar gyfer rheoli a gwella'r cofnodion, a darparu mynediad atynt i'r cyhoedd, ar ffurf cyllid grant i Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru gan Weinidogion Cymru, naill ai'n uniongyrchol neu drwy Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Caiff cyfraniadau eraill eu derbyn gan awdurdodau lleol, drwy waith a ariennir yn fasnachol, neu o adnoddau elusennol Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru eu hunain.

8. Mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig, yr awdurdod lleol perthnasol sy'n perchen ar gofnodion amgylchedd hanesyddol, ac yn eu rheoli'n uniongyrchol. Fodd bynnag, gan nad oes ganddynt statws na rôl statudol, maent yn agored i doriadau cyllidebol. Yng Nghymru, mae awdurdodau lleol yn cael eu cyngor archaeolegol gan Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru neu, mewn nifer fechan o achosion, gan eu swyddogion eu hunain. Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth ffurfiol gan awdurdodau lleol mai'r cofnodion amgylchedd hanesyddol yw ffynhonnell y cyngor yn anghyson ar y gorau ac mae statws cytundebau lefel gwasanaeth presennol rhwng awdurdodau cynllunio lleol ac Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru yn amrywio'n fawr. Mae hyn wedi arwain at alwadau i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol berchen yn ffurfiol ar gofnod sy'n bodloni safon gydnabyddedig er mwyn darparu'r wybodaeth ar gyfer cyngor mewn perthynas â rheoli archaeolegol a rheoli treftadaethol arall.

<u>Diben y darpariaethau</u>

9. Mae'r darpariaethau yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru greu cofnod, ei ddiweddaru'n rheolaidd a gwneud trefniadau i'r wybodaeth ar yr amgylchedd hanesyddol gael ei chofnodi, ei storio a'i rhoi ar gael yn gyhoeddus. Mae'r darpariaethau'n manylu ar yr ystod o wybodaeth sydd i gael ei chynnwys ym mhob cofnod. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ar asedau hanesyddol dynodedig a chofrestredig, asedau hanesyddol yr ystyrir eu bod o ddiddordeb lleol a manylion unrhyw archwiliadau perthnasol sydd wedi eu cynnal yn ardal yr awdurdod.

10. Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Cynllunio Lleol roi ei gofnodion ar gael am ddim i'r cyhoedd gyda chyngor a chymorth proffesiynol er mwyn dehongli'r wybodaeth y mae'n ei chynnwys. Fodd bynnag, gall yr awdurdod godi tâl rhesymol i adennill costau rhai gwasanaethau penodol sy'n gysylltiedig â'r cofnodion.

11. Mae'r darpariaethau'n caniatáu i awdurdod cynllunio lleol ddirprwyo'r gwaith o greu a chynnal a chadw ei gofnodion i 'berson' neu ddarparwr arall. Y disgwyl yw y bydd awdurdodau'n debygol o fod eisiau parhau â'r trefniadau cyfredol, sef bod ymddiriedolaethau archaeolegol ac ymddiriedolaethau elusennol cysylltiedig y cofnodion yn cyflawni'r swyddogaethau hynny. Bydd cymorth grant ar gyfer y trefniant hwn yn parhau i gael ei ddarparu gan Weinidogion Cymru, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Bydd yr awdurdodau yn rhydd i wneud

trefniadau amgen, os byddant yn dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru gael eu bodloni bod unrhyw drefniadau o'r fath yn briodol ac yn bodloni'r safon sy'n ofynnol ar gyfer cofnodion amgylchedd hanesyddol.

12. Mae'r darpariaethau hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau, ar ôl ymgynghori, ar greu cofnodion a'u cynnal a'u cadw, y trefniadau ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau hynny, cyhoeddi cofnodion amgylchedd hanesyddol a phennu unrhyw ffioedd.

Yr effeithiau y bwriedir i'r darpariaethau eu cael

13. Nod y darpariaethau yw sicrhau dyfodol cofnodion amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, fel bod gwybodaeth awdurdodol am yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei chofnodi a'i storio mewn ffordd effeithiol a'i bod ar gael i'r cyhoedd ar lefel leol gyda chymorth proffesiynol priodol i'w dehongli at ddibenion ymchwil, addysg a chyfeirio yn y dyfodol. O hyn allan, gall awdurdodau cynllunio lleol a rheolwyr tir eraill seilio penderfyniadau sy'n effeithio ar amgylchedd hanesyddol eu hardal — penderfyniadau cynllunio strategol a rheoli datblygu, er enghraifft — ar gyngor, gwybodaeth a thystiolaeth awdurdodol sy'n dod o'r cofnodion amgylchedd hanesyddol.